# GARTH CELYN – LLYS LLYWELYN AP GRUFFUDD

Ym mis Tachwedd 1282 teithiodd yr Archesgob Pecham i 'bencadlys' Llywelyn ap Gruffudd yn Aber[1] fel llysgennad Edwart I i drafod amodau heddwch y brenin. Golygai'r telerau hyn y byddai'r Cymry'n colli eu hannibyniaeth, ond o'r diwedd cynigiodd Edwart amodau ychwanegol cyfrinachol a ymddangosai'n fanteisiol i Lywelyn yn bersonol. Gwrthodwyd nhw'n bendant gan y tywysog a'i Gyngor, ac wrth wneud hynny mynegasant eu syniad aruchel eu hunain o genedligrwydd y Cymry. Cyfeiriodd Llywelyn ddwy o'r dogfennau yn yr ohebiaeth hon, sydd bellach yn archifau Lambeth, o'i lys 'Garth Celyn'.

Camddeallodd Syr Goronwy Edwards y cyfeiriad hwn fel 'Garth Cefn'[2], ond mae archifwyr Lambeth wedi cadarnhau mai 'Garth Celyn'[3] sy'n gywir, a dyma'r enw a ddefnyddir gan J. Beverley Smith yn ei fywgraffiad *Llywelyn ap Gruffudd Tywysog Cymru*[4].

Nid oes neb wedi cysylltu'r enw hwn â safle neilltuol.

Prif amcan yr ysgrif hon yw dangos y gellir casglu peth o hanes a nodweddion topograffig y safle trwy ystyried yr enw Garth Celyn.

Mae'n ymddangos na chafodd yr enw hynafol ar Aber, 'Aber Garth Celyn', mo'i ddefnyddio mewn dogfennau swyddogol ar ôl y Goresgyniad. Roedd hyn yn gyson â pholisi cyffredinol y Goron o fwrw gweddillion yr hen drefn i ebargofiant.

Awgryma 'Aber Garth Celyn' fod y garth yn agos at enau'r afon a'i fod yn rhan amlwg o'r tirlun.

Diffiniad sylfaenol o 'garth' (cf. *hortus* Lladin a *gort* Gwyddeleg) yw 'Tir wedi ei amgáu at ddibenion ffarmio neu/ac amddiffyniad.'

Daw ystyr yr enw'n fwy eglur o sylwi bod yna dri safle amlwg yn Arllechwedd yn dwyn cysylltiad â'r enw CELYN:

1. Garth Celyn, wrth ymyl yr aber.
2. Hafod Celyn, ym mhen uchaf y nant, lle yn gynnar yn y 19fed ganrif roedd adfeilion caer i'w gweld, yn dangos olion ail-adeiladu ac atgyfnerthu mewn gwahanol gyfnodau.[5] Yn amlwg, y garth a'r hafod oedd y ddau ganolbwynt o hen drefn yr *hendref* a'r *hafod* fel system o ffarmio. Yn filitaraidd hefyd roedd cysylltiad rhyngddynt, gan eu bod yn cyd-reoli'r dyffryn, oedd yn hynod bwysig yn strategol, a'r ffordd oddi yno ar draws Traeth Lafan i Fôn.

Dywed Elwyn Davies yn ei erthygl *'Hendre and Hafod in Caernarvonshire'*, *(Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1979, t. 24):

> *'Hafod Gelyn, close by in the valley of the Afon Anafon, was* the hafod *of the Prince's Manor of Aber, and is a most interesting site.'*

Mae'n debygol fod y ddau le hyn ar un adeg o dan reolaeth arweinydd milwrol a gweinyddwr o statws go uchel, Celyn. Enw planhigyn yw 'celyn' yn Gymraeg, ond mae safle arall yn yr ardal yn awgrymu mai dyn ac nid coeden oedd y Celyn hwn yn Aber Garth Celyn, ac mai Lladin ac nid Cymraeg yw tarddiad yr enw.

3. Eglwys Llangelynin. Mae'n debyg fod Celynin, sefydlydd yr eglwys hynafol hon, yn fab neu'n ddisgynnydd neu, o bosib, yn ddisgybl i Celyn neu Caelinus; gan mai *-in* yw'r bachigyn Lladin *(-inus)* sy'n golygu 'Iau' neu 'Llai' (e.e. Paulinus). Cf. Llansadwrn, Môn: Sadwrn (Saturnus) oedd y sefydlydd, ond ceir arysgrif yn yr eglwys er cof am Sadyrnin, perthynas iau mae'n debyg[6].

Mae tri safle arall yn yr ardal yn dwyn enw Celynin: Cwm Celynin neu Bant y Mynach, Craig Celynin a Ffynnon Celynin (Harold Hughes a H.L. North, *Old Churches of Snowdonia*[7], (tt. 151, (gyferbyn i) 73, 85).

Mae lle i gredu mai'r un yw Celyn Aber â pherchennog Twrcelyn, Môn. Dywed Gwilym T. Jones a Tomos Roberts, *Enwau Lleoedd Môn* (1996), t. 5:

> *Cwmwd Twrcelyn.* Enw yn cynnwys yr elfennau tŵr a celyn (Cuhelyn?), dynodiad personol mae'n debyg. Mae union arwyddocâd enw'r cwmwd . . . yn aneglur.

Ymddengys Celyn hefyd yn rhestr marchogion Arthur yn *Culhwch ac Olwen* (y rhannau cynharaf wedi eu cyfansoddi tua 950-960)[8].

Dadlennol dros ben yw eglurhad P. C. Bartrum yn *A Welsh Classical Dictionary*, t. 19:


> *CELYN ap CAW. (490)*
> *He appears in the lists of the sons of Caw in 'Culhwch and Olwen' and in the 'Hanesyn Hen' tract where the name is sometimes corrupted to Cuhelyn. He seems to have left his name at Twrcelyn, now a cwmwd in Môn. Under the name Celyn he was claimed as an ancestor of Carwed of Twrcelyn, a patriarch of families in Môn. See pp46, to which may be added a reference in Peniarth MS 176 p.273: ac i Gyhelyn yr hwn bioedd Twrkelyn. ('and to Cyhelyn who owned Twrkelyn').*

Hawdd yw dyfalu pwrpas tŵr mewn cwmwd o Fôn oedd yn arbennig o agored i ymosodiad gelynion o'r môr, a hefyd yn cynnwys trysorau metel y Mynydd Copr. Cloddiai'r Rhufeiniaid fetel nid yn unig ym Mynydd Parys ond hefyd yng nghyffiniau Aber. Roedd y ffordd rhwng Afon Conwy a Thwrcelyn dros Draeth Lafan yn cael ei defnyddio'n gyson at bwrpas masnach mor ddiweddar â'r 19fed ganrif.

Tybiai Hughes a North fod Celynin Arllechwedd hefyd yn noddwr eglwys ym Meirionnydd, ac arwydd i'r cyfeiriad yna yw'r ffaith bod Bodfan, mabsant Aber, yn wrthrych cwlt ym Meirionnydd[9]. Os felly, roedd Celynin yn gydymaith i Feuno Sant, oedd yn ffynnu yn rhan olaf y bumed ganrif[10], dyddiad cyson â chysylltiadau Arthuraidd y Celyn hŷn. Mae enw hwnnw hefyd ar sawl man cysegredig ym Meirionnydd, o Gapel Celyn i lawr i'r de, a chyn belled â Henffordd.

Enw tad Celyn, yn ôl pob tebyg, oedd Caeliws. Mae'n bosib mai Caelius Votepacus o Efrog oedd o, arweinydd ôl-Rufeinig a chanddo bwerau'n ymestyn dros Ogledd Cymru. Cofiwyd o gan y Cymry fel Coel Hen, ac fe'i cyfrifwyd gan Lywelyn Fawr ymhlith ei gyndadau[11].

Felly, erbyn y drydedd ganrif ar ddeg roedd yr enw 'Garth Celyn' eisoes yn hynafol ac roedd iddo naws arwraidd a sanctaidd y byddai'r tywysogion yn ei gwerthfawrogi. Dengys dogfennau Pecham eu hunain fod Llywelyn a'i Gyngor yn falch o hynafiaeth ac uchel dras eu cenedl.



*Pen y Bryn, Aber.*

## GARTH

Gellir ystyried ymhellach y nodweddion y mae'r enw hwn yn ei gyfleu. Yn y llu o enghreifftiau wedi eu casglu ledled Cymru gan arbenigwyr *Geiriadur Prifysgol Cymru* gellir amgyffred sawl ystyr: bryn; pentir; caer; tir wedi ei amgáu. Mae'r naill yn tueddu i ymdoddi i'r llall, ac yn aml maen nhw'n ymddangos yn gyfystyr, gan fod y gair yn dyddio o'r cyfnod pan 'oedd caerau bychain ar bob bryn' (Ifor Williams, *Enwau Lleoedd*, Bangor 1947, trafodaeth o *garth*, t.15). Efallai y byddai diffiniad cywasgedig fel 'tir amgaeëdig wedi ei atgyfnerthu mewn gwlad fynyddig' yn dderbyniol yn gyffredinol.

Ond nid yw hwn yn ddigon manwl ac eglur i'n galluogi ni i adnabod safle neilltuol fel garth. Yn ffodus, wrth inni ystyried y term mewn perthynas ag ardal gyfyngedig, yn arbennig y triongl o Fangor i Fetws-y-coed ac i fyny Dyffryn Conwy i Lansanffraid, cawn weld bod dynion lleol wedi medru cynnig manylion a diffiniadau mwy penodol. Er enghraifft, mae'r syniad o amgáu yn llawer mwy amlwg yn nhrafodaeth J. Lloyd-Jones o *garth* yn *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon* (Caerdydd, 1928) nag yn y gwaith mwy cynhwysfawr, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (1931-56).

Mae Llywelyn Ll. Hughes o Dremynfa House, Aber, yn ei hanes heb ei gyhoeddi o blwyf Aber, 1894[12], yn diffinio'r garth fel pentir neu 'drwyn' o dir yn ymestyn allan i'r môr (e.e. Garth, Bangor) neu i wastatir. Cf. cynnig John Davies a Thomas Wiliems, **promontorium** (1632).

Ar sail trafodaeth ag Owen Hughes o Dan y Clogwyn, Llanfairfechan (1835-1912) diffinia F.E. Fynes-Clinton *garth* fel:

> *garth, D. 'a jutting piece of hill' = trwyn mynydd.*
> *Very common in place names and not quite obsolete in current speech. I have heard O.H. use the word twice . . . the latter alluding to the jutting hill on each side of the entrance to the Aber valley.*

Mae'r metaffor 'trwyn' yn rhoi argraff fyw o ffurf y garth yn Arllechwedd.

Yn yr ardal dan sylw ceir o leiaf bedwar garth ar ddeg, a hawdd yw casglu nifer o nodweddion:

1. Maent i'w cael ar ymylon bryndir, nid yn y mynyddoedd.
2. Gellir gweld ymhell ohonynt i gyd. Awgryma Thomas Wiliems *specula* fel enw cyfystyr.
3. Mae enwau fel Pen y Garth, Penarth, Benarth yn awgrymu sawl lefel o dir. Enghraifft ddiddorol o hyn yw Gogarth, safle o'r 13ydd-14ydd ganrif lle'r oedd llys Esgobion Bangor ar greigiau de-orllewinol y 'Great Orme'. Disgrifir hwn gan Douglas H. Hague[13] fel *'ledge'* neu *'platform'* sy'n rhoi golygfa odidog o ogledd-orllewin Gwynedd.
4. Ceir y garth fel rheol ar elltydd isaf bryn.
5. Safle dyrchafedig a bryn y tu cefn iddo yw Garth. Yn ôl pob tebyg mae'n ffurf naturiol, efallai wedi ei lunio'n fwy amlwg gan ddyn.

*(parhad ar dudalen 5)*